

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Llanllyfni, a gynhaliwyd yn rhithiol dros y system 'Zoom', Nos Fawrth, 11 Ionawr 2022 am 7.00 o'r gloch.

Agenda

1. Presennol: Dafydd Thomas (Cadeirydd) – Nebo, Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, OP Huws – Llanllyfni, Barry Bracegirdle, Dylan Herbert, Erfyl Williams, Justin Davies, Heledd Gwilym – Penygroes, Peter Bridges, Sian Dafydd, Gareth Jones – Talysarn. Cyngorydd Judith Humphreys. Gwadd – Mair Edwards – Grŵp Cynefin.

Ymddiheuriadau: Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Harry Owen, Ffion Jones a Ceri Owen. Ni dderbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyngorwyr Dilwyn Lloyd a Craig ab Iago.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Dafydd Thomas a rhoddwyd croeso arbennig i Mair Edwards.

2. Datgan Buddiant: Dim i'w ddatgan.

3. Gwadd – Mair Edwards: Rhoddwyd pethau drosodd i Mair i roi diweddariad ar brosiect Canolfan Iechyd a Lles Dyffryn Nantlle. Esboniodd eu bod yn gobeithio o fewn y 2 i 3 wythnos nesaf y bydd yna dŷm dylunio llawn wedi eu penodi ar gyfer y prosiect hwn a bod proses caffael yn mynd ymlaen nawr i apwyntio pensaer. Eglurodd erbyn hyn fod grant wedi ei dderbyn a sydd yn eu galluogi i brynu maes parcio Grŵp Cynefin ac adeilad Llys Meddyg. Mae £38m o gostau wedi ei amcangyfrif ar gyfer y prosiect hwn ac esboniodd yn gyrno o lle maent yn disgwyl i'r arian hwn ddod. Rhoddwyd cyfle i bawb godi cwestiynau – holwyd pryd maent yn meddwl y bydd y gwaith ar y safle yn dechrau? Esboniodd Mair fod pethau ychydig bach ar ei hól oherwydd y pandemic ayyb, ond y gobaith yw y bydd cais cynllunio llawn yn mynd fewn yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Holwyd pa fath o adnoddau meddygol fydd yn y ganolfan? Meddygon teulu, deintydd cymunedol, nyrsus cymunedol, bydwagedd ac hefyd yn edrych fewn i opsiynau o pa wasanaethau eraill fedrith cael ei gynnig yno. Esboniodd Barry bod pobl yn holi o hyd ag o hyd pryd mae rhywbeth yn mynd i ddigwydd, ac yn gofyn pa ymateb sydd orau i roi i bobl. Esboniodd Mair y gobaith yw y bydd y cais cynllunio llawn yn cael ei basio o fewn 3 i 4 mis o gael ei gyflwyno i'r Cyngor a wedyn yn edrych ar amserlen o ddechrau y gwaith yn ystod 2023 gyda gobaith o agor rhai agweddau o'r prosiect yn 2024. Awgrymodd Dafydd efallai y buasai yn syniad fod y wybodaeth o'r amserlen yn cael ei rhoi allan i'r cyhoedd er mwyn iddynt gael gwybod beth sydd yn mynd ymlaen. Holwyd os ydynt yn ffyddiog eu bod am gael yr holl arian sydd ei angen ar gyfer y prosiect gan fod y swm yn un go fawr? Dywedodd Mair fod y pecyn ariannol yn un cymleth a bydd yr arian yn dod o lawer o wahanol sectorau, ond maent yn ffyddiog a bydd hyn yn fuddsoddiad aruthrol i Ddyffryn Nantlle. Holodd Judith o ran rhannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd a oes posibil cyd weithio gyda artist a plant lleol i greu murlun i roi ar ffens y safle yn dangos beth sy'n mynd i fynd ymlaen – dywedodd Mair y buasai yn edrych fewn i hyn ymhellach. Diolchwyd i Mair am ei hamser.

4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod 14 Rhagfyr 2021: Cynnigiodd Gwyndaf Roberts ac eiliodd Barry Bracegirdle fod y cofnodion yn gywir a cytunodd pawb.

5. Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd: Cyfarfod gyda **Sion Bryn Roberts** – Adroddodd Judith yn dilyn o'r sgwrs gyda Bryn yn y cyfarfod diwethaf ei fod wedi rhoi ffigyrau ymlaen a pawb wedi cael cyfle i weld rhain cyn y cyfarfod hwn. Adroddodd hefyd eu bod yn awyddus i beilotu rhedeg clwb yn defnyddio caban ac os y

buasai y Cyngor Cymuned yn cytuno yna buasai y caban yn cael ei dalu amdano o dan y cynllun peilota. Dywedodd Barry bod yn bwysig cofio hefyd bod yna gostau ychwanegol sydd angen eu cysidro er enghraifft gwaith ar y caban – ei gladio i'w wneud yn gynnes, trydan, toiled, yswyriant ayyb. Gofynnodd a fuasai yn syniad gofyn i Gyngor Gwynedd am yr adeilad toiledau a troi hwn yn ystafell ar gyfer rhedeg clwb – mae toiled a trydan yno yn barod. Justin ddim yn gweld hyn yn debygol o gael ei basio gan fod yr adeilad ar safle y Ganolfan Lles newydd. Gofynwyd a oes posib defnyddio Ysgol Dyffryn Nantlle – ydi mae hyn yn opsiwn ond o beth mae Judith wedi ei glywed mae y pobl ifanc yn hoffi cael eu lle eu hunain a dim eisiau gorfod mynd yn ôl i'r ysgol gyda'r nosau. Dywedodd Erfyl ei fod yn mynd i Caia Park yn fuan ag am ymweld ar safle sydd yno i weld be ydi be ac adrodd yn nôl i'r Cyngor Cymuned. Ydi mae hyn am fod yn gostus ond eto mae yn cyflogi tri person ac mae Erfyl o'r farn bod angen rhoi rhywbeth i'r bobl ifanc yn yr ardal. Pete yn cytuno ac yn dweud bod angen meddwl am y rhai ifanc ac efallai drwy roi rhywbeth iddynt y buasai ganddynt fwy o barch at bethau. Erfyl yn meddwl os yn cael y caban am ddim yna yn bwysig edrych ar hyn yn fanwl a rhoi trial i'r prosiect. Dafydd yn meddwl efallai y buasai caban o'r fath ddim digon mawr ar gyfer hyn. Syniad arall gan Erfyl oedd efallai cael hwbiau bach o gwmpas y pentref i leihau ar y niferoedd mewn un lle ac angen holi os yw Cyngor Gwynedd am roi mwy o arian i helpu gyda hyn? Justin eisiau codi y pwynt fod rhaid cofio fod y preasept wedi ei godi tua 3 mlynedd yn nôl er mwyn helpu pobl ifanc y Dyffryn. OP Huws o'r farn na all dim gael ei benderfynnu heno ac yn cynnig y dylid cael mwy o wybodaeth at y cyfarfod nesaf a penodi amser ar gyfer ei drafod, eiliodd Barry Bracegirdle y cynnig hwn. Cynnigiodd Dafydd Thomas y dylai grŵp bach ddod at eu gilydd i drafod ymhellach – cytunwyd gyda hyn a rhoddwyd enwau Judith, Justin, Peter, Barry, Erfyl a Dafydd ymlaen ar gyfer y grŵp hwn.

6. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir: Roedd pawb wedi derbyn adroddiad a oedd wedi ei pharatoi gan Judith Humphreys. Nid oedd dim yn codi o'r adroddiad a diolchwyd i Judith am ei gwaith.

7. Trosglwyddo Asedau Penygroes: Esboniodd Judith beth oedd dan sylw yma – bod gofyn i Gyngor Cymuned Llanllyfni gymerud drosodd y darn celf sydd ar y palmant ger y safle bws gyferbyn a'r co-op. Holodd Judith i Sian os oedd hyn yn rywbeth y buasai yn bosib ei wneud. Holodd Sian pwy oedd berchen ar y safle lle mae y darn celf, a mwyaf tebyg mai Cyngor Gwynedd sydd ei berchen. Esboniwyd nad oes modd ei falu nag ei symud ac mae'n angebygol fod neb am frifo arno. Cynnigiodd Erfyl Williams fod y Cyngor Cymuned yn cymerud yr ased hwn drosodd ac eiliodd Sian Dafydd ond ar yr amod nad oes costau i'r Cyngor Cymuned am ei gymerud.

8. Materion Pentrefi: Penygroes – Barry yn adrodd fod arwydd yn 'Hen Stesion' wedi ei dorri ac erbyn hyn wedi mynd yn gyfan gwbl. Adroddodd hefyd fod twll drwg wrth meddygfa Corwen House sydd yn beryglus ac angen sylw brys neu bydd rhywun wedi brifo arno. Y cerbiau o flaen 28 a 50 Trem Yr Wyddfa wedi torri ac angen sylw hefyd. Cae Cwtin – y drain sydd yn dod drosodd o'r ffordd osgoi eisiau eu torri. Erfyl yn adrodd bod dal problem gyda pobl yn parcio yn beryglus ar y stryd gyda'r nosau y penwythnos pan yn dod i'r siopau 'tec awe'. Angen gofyn i PCSO Aled Hughes os y bu iddo edrych fewn i hyn yn dilyn y cyfarfod gafwyd gydag o. Justin yn adrodd bod yna broblem ar hyn o bryd gyda cŵn yn rhedeg yn wyllt heb berchnogion ac yn gwneud eu baw ymhob man. Cynnigiodd Dafydd Thomas y dylid gofyn i'r warden cŵn ddod o gwmpas pob pentref, hefyd gofyn i bawb yrru at Nia gyda lle mae'r problemau gyda baw ci er mwyn iddi fedru ei basio ymlaen i'r Cyngor ddelio gydag o. Hefyd angen gofyn am fwy o arwyddion ymhob pentref. **Llanllyfni** – Twll yn y ffordd yn top Bryn Sisyllt lle mae draen wedi suddo (wrth lamp rhif 2). Adroddwyd fod y lori

raenu wedi bod drwy y pentref ac yn gyrru yn gyflym ofnadwy wrth ddod lawr y pentref sydd yn beryglus dros ben a hefyd sydd yn golygu fod y graean yn mynd ar hyd y ceir a'r palmentydd a dim ar y ffordd. **Talysarn** – baw ci yn broblem yma a hefyd. Peter yn gofyn a fuasai yn syniad adrodd am y broblem yma yn fwy cyhoeddus? Tyllau yn y ffyrdd i gyd ac angen sylw brys. Er bod rhai o'r tyllau wedi eu cau, nid yw yn parau am hir iawn. **Nebo** – diolch yn fawr am y golau nadolig. Eto tyllau yn y ffyrdd yn peri gofid ac angen sylw brys. Nia i gysylltu gyda'r adrannau o fewn y cyngor ayyb am y materion a godwyd yma.

9. Dysgwr Y Dyffryn – Cytunwyd i gario ymlaen gyda'r cyfarfod ar 18 Ionawr am 7yh yn rhithiol ar zoom a gofyn i Nia wahodd pawb. Llythyr wedi ei baratoi gan OP Huws, pawb yn fodlon i'r llythyr gael ei yrru allan i Dyfrig ap Siencyn ac hefyd ychwangeu iddo ein bod yn gwahodd rhywun o hunaniaith i gyfarfod i drafod ymhellach. (8.30 - OP Huws gadael y cyfarfod)

10. Taflen Ariannol a Chyllid: Roedd pawb wedi derbyn copi o'r gyllideb hyd at 28 Rhagfyr 2021 i edrych drosti cyn y cyfarfod. Pwysleisiodd Dafydd bod y cyngor eisioes wedi cytuno i beidio a codi y presept am eleni a bod rhaid cofio ein bod yn disgwyl tendr torri llwybrau a mynwentydd i fewn felly bydd rhaid bod yn ofalus gyda gwario. Cynnigiodd Heledd efallai y buasai yn syniad ail edrych ar y presept. Adroddwyd y buasai cynnal clwb ieuentid yn mynd a 16% o'r gyllideb. Holodd Peter felly faint y buasai yn rhaid ei godi ar bob aelwyd os meddwl cario ymlaen gyda hyn? Edrychodd Gareth ar hyn ac adrodd fod £50,000 yn costio £35.07 i dŷ band D. Yna 70c y tŷ i bob £1000. Justin o'r farn os yn ei godi yna ei bod yn bwysig dangos i bobl pam ei fod yn cael ei godi er enghraifft trwy bamffled, gwefanau cymdeithasol ayyb. Teimlai Peter os na fuasai yn aelod o'r Cyngor Cymuned yna ni fuasai ganddo syniad ar beth mae'r arian yn cael ei wario nac ychwaith beth mae'r Cyngor Cymuned yn ei wneud. Hyn efallai yn arwydd fod eisiau defnyddio y cyfryngau cymdeithasol fwy i adael i bobl wybod beth da ni yn wneud, ac efallai y buasai pobl yn fwy cefnogol wedyn. Cynnigiodd Barry Bracegirdle gan fod y cyngor wedi cytuno yn barod ar y presept yna dylid ei adael ar hyn, eiliodd Gwyndaf Roberts y cynnig. Nia i yrru y sŵm i fewn erbyn y ddyddiad cau. Holodd Gareth os ydynt am geisio hawlio rhywfaint o'r TAW yn nôl nawr yn hytrach na disgwyl tan ddiwedd y flwyddyn. Cynnigiodd Dafydd y dylid ceisio hawlio hyd at ddiwedd Rhagfyr nawr ac yna gwneud Ionawr, Chwefror a Mawrth wedyn.

11. Llwybrau a Mynwentydd: Holodd Dafydd os oedd unrhyw un wedi dangos diddordeb yn y tendr torri llwybrau a mynwentydd? Adroddodd Nia fod 2 wedi holi a wedi derbyn y dogfennau ganddi. Gwyndaf Roberts yn adrodd er fod wedi ei basio y tro diwethaf i beidio a ffensio y ffordd yn Macpela ond yn meddwl y buasai yr arian yn nôl o'r TAW yn mynd i dalu am y gwaith. Barry yn cytuno y dylid ei ffensio. Edrychodd Nia nôl ar gofnodion y cyfarfod diwethaf a pasiwyd bryd hynny i adael hyn tan gweld pwy oedd yn cael y gontract torri llwybrau a mynwentydd a'i drafod bryd hynny. Dywedodd Dafydd y buasai yn well gadael hyn am nawr a'i drafod fel y cytunwyd cynt.

12. Goleuadau Nadolig a Baneri Bro Lleu: Erbyn hyn y golau nadolig wedi eu tynnu i lawr ond bracedi y baneri heb gael eu gosod yn nôl. Gofynwyd i Nia gysylltu gyda'r contractwyr a gofyn iddynt pryd fydd hyn yn digwydd a pwysleisio ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu gosod yn nôl yn union fel yr oeddynt cynt. Roedd y golau dros yr wyl yn edrych yn dda ond teimlo efallai y buasai cael 2 eto rhwng mynediad Trem Yr Wyddfa a'r cylchdro yn syniad da gan nad oedd rhai yno. Cynnigiodd Dafydd efallai y buasai yn syniad gofyn i co-op dalu am ddau olau i'w rhoi yno. Soniodd Justin am y cynllun cerdyn difidend sydd gan co-op sydd yn rhoi arian i wahanol elusenau a sefydliadau sydd yn ymgeisio amdano. Efallai syniad edrych fewn i hyn i weld os y buasai posib codi arian i gael y ddau olau. Sian ddim yn siwr os y

buasai y Cyngor Cymuned yn cael gwneud hyn ond efallai yn syniad holi co-op am unrhyw gynlluniau eraill sydd ganddynt a fuasai yn ariannu hyn. Cytunodd pawb i hyn a gofyn i Nia gysylltu gyda co-op i holi. Awgrymodd Gwyndaf y buasai yn syniad archebu golau Llanllyfni mis Ebrill er mwyn eu cael yma mewn digon o amser.

13. Llythyr drafft i Betsi Cadwaladr ynglŷn â sefyllfa Corwen House: Nia wedi drafftio llythyr a wedi ei yrru at bawb iddynt edrych drosto cyn y cyfarfod. Cytunwyd yn unfrydol i yrru y llythyr hwn.

14. Diweddariad Parc Sglefrio a Trac BMX Talysarn: Yn anffodus nid oedd pawb wedi derbyn yr ebost a oedd wedi ei yrru gan Rhian George yn ymateb i'r cwestiynau a godwyd gan y Cyngor Cymuned. Penderfynwyd gadael hwn tan y cyfarfod nesaf a gofyn i Nia ail-yrru yr ebost i bawb gael cyfel i edrych drosto.

15. Trafod llythyr Jill Williams – Cae Dolbebi, Talysarn: Roedd pawb wedi derbyn copi o'r llythyr a oedd wedi ei dderbyn gan Jill Williams a gofynnodd Dafydd beth oedd barn pawb. Roedd Gwyndaf o dan yr argraff nad oedd y cae yn ddim i'w wneud a'r Cyngor Cymuned a'i fod wedi cael ei roi i Talysarn a bod yna ymddiriedolwyr arno. Gofynwyd i Nia edrych drwy gofnodion tua 6/7 mlynedd yn nôl lle mae Justin yn cofio hyn yn cael ei drafod. Dywedodd Dylan y buasai yn edrych ar y cofrest tir i weld pwy sydd ei berchen a Sian am holi Harry i weld os yw yn cofio unrhywbeth am hyn. Nia i ymateb i Jill Williams yn dweud bod angen gwneud gwaith ymchwil i'r berchnogaeth cyn rhoi ateb.

16. Ceisiadau Cynllunio: Nid oedd yna geisiadau wedi eu derbyn.

17. Gohebiaeth: Roedd pawb wedi derbyn y gohebiaeth ymlaen llaw i'r cyfarfod a rhoddwyd cyfle i bawb godi unrhyw fater.

- Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol – Rhaglen Llunio Dyfodol Cymru
- Ymgynghoriad cyhoeddus: Canllaw cynllunio atodol drafft Safle Treftadaeth y Byd Tirewdd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru (ebost 19 Rhagfyr) – **Dafydd am ddrafftio rhywbeth i'w yrru am hyn.**
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021: Canllawiau Statudol drafft ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref (ebost 4 Ionawr)
- Uchafbwyntiau Trefi SMART 2021
- Arolwg problemau carffosiaeth leol

16. Materion Ariannol: Cytunwyd yn unfrydol i dalu y rhain.

- Cyngor Gwynedd - £840.00+168.00(TAW)=£1008.00. Gosod 3 bocs golau nadolig
- Cyngor Gwynedd - £1346.00. Cyfraniad at gostau oriau agor llyfrgell Penygroes
- Nia Jones - £25.00 Ffôn a rhyngwyd Ionawr 2022
- Nia Jones - £14.39 Zoom Ionawr 2022
- Nia Jones - £47.12 Hysbyseb tendr torri llwybrau a mynwentydd yn y Daily Post

Diolchodd y cadeirydd i bawb am fod yn bresennol.